

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol ID Hooson 2020-21

Cyflwyniad

Mae'n bleser cyflwyno'r Adroddiad Cyffredinol Blynyddol ar gyfer 2020-21. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o fywyd a gwaith yr ysgol yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Hoffwn ddiolch i ddisgyblion, staff, rhieni, cyd-lywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn arall heriol hon.

Fel ysgol, mae'n braf gwybod ein bod yn parhau i fod fel teulu agos. Er y bu'n rhaid gohirio nifer o weithgareddau arferol yr ysgol yn sgil y sefyllfa barhaus mewn perthynas â COVID, mae staff a disgyblion wedi addasu'n wych i'r heriau newydd a gyflwynwyd a hoffwn ddiolch o galon iddynt am hynny.

Llwyddo yw un o'n nodau ar gyfer pob disgybl, ac rydym yn parhau i ymdrechu i wella ein safonau ymhellach. Byddwn yn parhau i addasu a gwella'r gwaith hwn wrth i'r sefyllfa o ran iechyd newid a datblygu ac wrth i ni geisio adennill rhyw fath o 'normalrwydd' unwaith eto.

Cadwch yn ddiogel.

Mr Geraint Phillips
Cadeirydd y Corff Llywodraethu

CYFARFOD

Os yw rhieni'n awyddus i ni gynnal cyfarfod i drafod agweddau o'r adroddiad hwn, cysylltwch â'r ysgol i fynegi eich dymuniad drwy e.bostio Mrs S Kelsall ar mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk cyn Mai 12fed(canol dydd) Os bydd digon o rieni yn awyddus i gael cyfarfod, byddwn yn rhoi gwybod yr amser a'r trefniadau i chi mewn da bryd.

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHU

Yn ystod 2020-21, roedd saith swydd wag ar gael ar y Corff Llywodraethu.

Geraint Phillips	Cadeirydd/Chair
Lynda Roberts	Is-Gadeirydd / Vice Chair
Karen Wilson(ALI)	Clerc/Clerk

Llywodraethwr <i>Governor</i>	Cynrychioli <i>Representing</i>
Geraint Phillips	Cyfetholedig / <i>Co-opted</i>
	Cyfetholedig / <i>Co-opted</i>
Beth Williams	Cynrychiolydd Rhieni <i>Parents Representative</i>
Clwyd Richards	Cyfetholedig / <i>Co-opted</i>
Rhys Davies	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg LEA Representative
Beth Wright	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg LEA Representative
Lynda Roberts	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg LEA Representative
Paul Pemberton	Cynrychiolydd Cyngor Bro Community Council Representative
Bethan Fell	Cynrychiolydd Rhieni <i>Parents Representative</i>
Sarah Kelsall	Cynrychiolydd Staff / Staff Representative
Hywel Dodd	Cynrychiolydd Rhieni <i>Parents Representative</i>
Pastor Joshua Roberts	Cynrychiolydd Rhieni <i>Parents Representative</i>
Dyfan Jones	Cynrychiolydd Athrawon Teacher Representative
Rhodri Jones	Pennaeth/Headteacher

Mae'r Corff Llywodraethu ym mhob ysgol yn gyfrifol am y canlynol:

Ymddygiad cyffredinol o fewn yr ysgol.

Sicrhau fod cwricwlwm yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, yr ysgol a pholisïau cyffredinol yr AALI.

Penderfynu ar bolisi'r ysgol mewn perthynas â darpariaeth addysg rhyw.

Penderfynu ar yr egwyddorion cyffredinol i'w dilyn gan y Pennaeth wrth osod a gweithredu polisi ymddygiad.

Rheoli cyllideb yr ysgol a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol.

Cymryd rhan yn y broses o benodi staff i'r ysgol.

Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol yn cael ei darparu i rieni.

Sicrhau fod gwybodaeth am gwricwlwm yr ysgol yn eang ac yn gytbwys ac yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Sicrhau fod gwybodaeth am y cwricwlwm a chyraeddiadau disgyblion ar gael i rieni ac eraill.

Sicrhau fod yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol a chyd-addoli.

Paratoi Adroddiad Blynyddol a chynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol â rhieni i drafod yr Adroddiad (os derbynnir digon o geisiadau)

Sicrhau fod disgyblion a staff yn gallu gweithio mewn amgylchedd dysgu diogel ac iach. *Yn ystod y pandemig, mae'r Corff Llywodraethu wedi gweithio â'r Awdurdod Lleol i baratoi asesiad risg Covid-19 priodol er mwyn paratoi i ddisgyblion a staff ddychwelyd i'r ysgol.*

CYLLID

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys crynodeb o wariant ariannol yr ysgol. Defnyddiwyd cyllideb yr ysgol i sicrhau'r profiadau addysgol gorau i ddisgyblion a sicrhau'r adnoddau priodol ar eu cyfer. Defnyddir cyllid ychwanegol i dargedu llythrennedd a rhifedd. Defnyddir y Grant Amddifadedd Cymdeithasol yn bwrpasol i fodloni anghenion penodol disgyblion, a threfnwyd adnoddau ychwanegol a staff er mwyn helpu i godi safonau.

Yn 20-21, derbyniodd Ysgol I D Hooson grant o £39,900 drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Gwariwyd yr arian ar:

- Gyflogi staff addysgu a dysgu gyda rôl arbennig yn darparu ymyrraeth a rhaglenni cymorth Llythrennedd a Rhifedd.
- Darparu gwasanaeth cwnsela i gefnogi dysgwyr.

Datganiad ariannol ar gyfer

2020/2021:

Balans Agoriadol (Cyllid/Grantiau ALL)	£1,915,691.00
Incwm	£246,864.19
Cyfanswm Incwm	£1,262,555.19

Gweithwyr	£966,219.27
Safleoedd	£75,358.81
Cludiant	£00.00
Cyflenwadau	£31,353.16
Gwasanaethau Cymorth	£72,708.00
Cyfanswm Gwariant	£1,145,639.24

Balans Terfynol diwedd blwyddyn	£116,915.95
--	--------------------

Cronfa'r ysgol (Ebrill 2020 – Mawrth 2021)

Balans Agoriadol	£19,936.03
Derbynebaw	£24,887.72
Gwariant	£26,747.88
Balans Terfynol	£18,065.87

STAFFIO

Mae staff yr ysgol yn cynnwys:

- 1 Pennaeth
- 11 athro/athrawes llawn amser
- 12 cymhorthydd llawn amser
- 1 Ysgrifennydd / Rheolwr Busnes llawn amser

Nifer y disgyblion wedi'u cofrestru ddiwedd mis Gorffennaf 2021:

Oedran meithrin - 22
Oedran Derbyn - 29
Blwyddyn 1 – 32
Blwyddyn 2 – 41
Blwyddyn 3 – 45
Blwyddyn 4 – 26
Blwyddyn 5 – 36
Blwyddyn 6 – 42

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae gan yr ysgol bolisi anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod 20-21, Mr S Owen oedd y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a chynhwysiant, ac ef oedd yn gyfrifol am gydlynu gwaith â disgyblion a oedd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Cynigir cymorth a chefnogaeth i unigolion, grwpiau a darperir cymorth hefyd o fewn y dosbarth. Cydymffurfir â pholisi ADY a Chod Ymarfer yr ysgol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn elwa o'r cymorth y maent yn ei dderbyn. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ac yn ymgynghori â gwasanaethau cymorth amrywiol yr Awdurdod Lleol yn rheolaidd. Roedd paratoi ar gyfer y Cod Ymarfer ADY newydd yn ffocws i'r ysgol yn ystod 20-21.

Mrs L Roberts yw'r "llywodraethwr penodedig" sy'n gyfrifol am anghenion dysgu ychwanegol.

PRESENOLDEB

Oherwydd y pandemig Covid-19, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gasglu ffigurau presenoldeb a thargedau presenoldeb ar gyfer 2020-21.

Disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosibl i ddarparu rheswm dros absenoldeb. Os na dderbynnir eglurhad, yna bydd yr ysgol yn ei gofrestru fel absenoldeb anawdurdodedig. Mae'r ysgol yn annog rhieni i osgoi tynnu plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau yn ystod y tymor.

GWAHARDDIADAU

Gwaharddwyd ar 5 achlysur gwahanol yn ystod 20-21.

POLISI'AU'R YSGOL

Caiff polisiau eu harchwilio a'u hadolygu yn rheolaidd. Maent ar gael yn yr ysgol i unrhyw un sy'n dymuno eu gweld. Mae rhai polisiau hefyd ar gael ar wefan yr ysgol. Adolygwyd y polisiau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Ymweliadau Addysgol
Llawlyfr	Presenoldeb
Rheoli Perfformiad	Asthma
Rhoddion a Lletygarwch	Di-fwg
Adleoli a Diswyddo	Datganiad Cyfle cyfartal
Diogelu & Amddiffyn Plant	Trefn Cwyno
Eithafiaerth a Radicaleiddio	Cynllun Parhad
Tal	Iechyd & Diogelwch

PROSBECTWS YR YSGOL

Mae prospectws yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol. Caiff y prospectws ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.

DIOGELWCH

Mae'r ysgol yn sicrhau diogelwch pob budd-ddeiliad drwy gydymffurfio â pholisi lechyd a Diogelwch yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn, drwy gyfraniad hael a charedig busnes lleol Wilson Construction Ltd prynwyd a gosodwyd uned Diffibriwleiddio mewn lleoliad cyfleus wrth fynedfa'r ysgol.

DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac rydym yn anelu at sefydlu dwyieithrwydd ar draws Cyfnod Allweddol 2. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais enfawr ar annog popeth Cymraeg ac ymwybyddiaeth o draddodiadau Cymreig. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur cynllun y Siarter Iaith.

CANLYNIADAU'R ASESIAID STATUDOL

Aseidiadau Athrawon i Flwyddyn 2 a Blwyddyn 6

Yn sgil y pandemig Covid-19, nid oedd gofyn i athrawon roi gwybod am ganlyniadau aseidiadau diwedd y cyfnod i Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21.

Y CWRICWLWM

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyflawn a chytbwys i bob plentyn, sydd yn eu tro yn datblygu eu sgiliau yn briodol ac i safon uchel. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu i godi safonau.

YMWELIADAU A GWEITHGAREDDAU ADDYSGOL A'R GYMUNED LEOL

Mae'r ysgol wedi parhau i weithio'n agos gyda nifer o asiantaethau lleol, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, y gwasanaeth Lleferydd ac Iaith, Nyrs Ysgol a'r gwasanaeth Ffisiotherapi, a manteisiwyd ar gyfleoedd eraill i weithio yn y gymuned leol.

Mae gan yr ysgol hefyd berthynas agos gyda'r Heddlu, ac mae swyddog addysg yr Heddlu, PC Mark Jones, yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd gan weithio gyda dosbarthiadau amrywiol ar bynciau iechyd a diogelwch.

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr ysgol lwyddiant wrth gymryd rhan mewn prosiect 'Criw Mentrus' ble bu grwpiau o ddisgyblion yn brysur yn creu dalwyr haul fel rhan o brosiect menter a busnes. Cyflwynodd y plant ei gwaith drwy gyfrwng cyflwyniad ar-lein i banel o feirniad gan dderbyn canmoliaeth uchel am ei gwaith ar lefel cenedlaethol.

Er nad yw'r ysgol wedi gallu trefnu gymaint o ymweliadau yn sgil y pandemig, trefnwyd gweithgareddau amrywiol o fewn yr ysgol a drwy weithgareddau ar-lein. Dyma rai o weithgareddau'r flwyddyn.

<u>Ymweliadau â'r ysgol</u>	<u>Ymweliadau</u>
PC Mark Jones Agor y Llyfr – gwasanaethau ar lein Sioe Nadolig Anni-Llyn a Tudur Phillips Gweithdai celf Nikki Pilkington Tiworiaid Drymiau, Llinynnau, Pres a Chwythbrennau ar gyfer gwersi offerynnau cerddorol Sesiynau criced Sioe Hud – Proffesor Llusern Teams 4U – casglu bocsys esgidiau Sesiynau Senedd Cymru i flynyddoedd 5a6 – (ar-lein) Sesiynau cerddoriaeth 'Make Some Noise'(ar-lein) Cwmni tynnu lluniau Tempest	O ganlyniad i reolau yn ymwneud a Covid-19, nid oedd yn bosib i ymweliadau a theithiau ysgol arferol gael ei cynnal.
<u>Sioeau a Chyngherddau</u>	<u>Dathlu Dyddiau Arbennig</u>

Blwyddyn 5 a 6 – Gwasanaeth Diolchgarwch (cyflwyniadau dosbarth ar-lein)
Cyngherddau Nadolig – pob dosbarth yn fflmio cyflwyniadau o ganeuon y Nadolig oedd ar gael i rieni ei prynu.

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth – dydd gwisg goch
Jambori – Cyfnod Sylfaen
Apêl Bocs Esgidiau
Plant Mewn Angen
Nosweithiau Rhieni(ar lein)
Diwrnod Trwyn Coch
Diwrnod y Llyfr
Wythnos Ryngwladol
Diwrnod Defnyddio'r We yn ddiogel
Diwrnod Owain Glyndŵr
Diwrnod Cerdoriaeth Cŵl
Dydd Gŵyl Dewi – Dathliad Ysgol

BLAENORIAETHAU YSGOL

Cytunodd y Corff Llywodraethu ar bedair prif flaenoriaeth i wella'r ysgol yn y flwyddyn academaidd 20-21.

1. Parhau gyda'r gwaith o baratoi tuag at Cwricwlwm 2022 i gynnwys adolygu trefniadau ar gyfer ymarfer y defnydd o fedrau rhifedd a llythrennedd a TGCh ar draws y cwricwlwm, sydd yn cyfrannu tuag at sicrhau profiadau creadigol cyfoethog ar gyfer yr unigolyn.

Parhau wnaeth gwaith yr ysgol wrth baratoi tuag at gyflwyno y cwricwlwm newydd. Bu staff yn mynychu cyfarfodydd amrywiol ble roedd cyfle i ymgyswngwyo a chodi ymwybyddiaeth ymhellach o ran gofynion y cwricwlwm newydd. Rhoddwyd ffocws pellach ar drefn cynllunio tuag at y cwricwlwm, yn ogystal a arbrofi pellach ac addasu trefniadaeth ar lawr dosbarth o ran y dysgu a'r addysgu. Cyflogwyd staff ychwanegol i gefnogi disgyblion ar lawr dosbarth, a datblygwyd ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion CA2 yr ysgol wneud defnydd ehangach o weithgareddau yn yr awyr agored. Yn ogystal a hyn, gwelwyd datblygiad cadarnhaol yn medrau TGCh y disgyblion, wrth i'r defnydd o weithgareddau ar-lein ddatblygu ymhellach o ganlyniad i'r sefyllfa yn ymwneud a Covid-19. Bydd y gwaith yma yn parhau yn ystod 21-22.

2. Adolygu trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau cyfleoedd i ymarfer, defnyddio a datblygu medrau llafar yn y Gymraeg ar draws yr ysgol.

Rhoddwyd ffocws bellach ar sicrhau fod cyfleoedd i ddisgyblion wneud defnydd o'r Gymraeg. Roedd modelu iaith gywir, bwydo patrymau ieithyddol wythnosol, gwobrwyo cyson, cynllunio cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddefnyddio a chlywed y Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn rhan o'r gwaith. Cymerwyd mantais o gyfleoedd a gweithgareddau Cymraeg a gynnigwyd ar-lein i'r plant, roedd rhain yn cynnwys cyflwyniadau Nadolig, sesiynau gyda Senedd Cymru a gweithgareddau Cwis llyfrau. Bu grwpiau o blant yn cyfnod allweddol dau hefyd yn rhan o brosiect gemau buarth, ble aethant ati i gynllunio a chreu gemau gyda'r prif nod o sicrhau fod hyn yn hybu eu defnydd o'r Gymraeg ar y buarth.

3. Adolygu trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu a darllen ar draws yr ysgol

Defnyddwyd cyfnodau diwrnodiau hyfforddiant a chyfarfodydd mewnol amrywiol i osod ffocws ar hybu defnydd o gyfleoedd ysgrifennu a darllen ar draws y cwricwlwm. Defnyddwyd peth o gyllideb ysgol i brynu adnoddau darllen ychwanegol, ac roedd cyfle i ail-ymweld a strategaethau penodol ar lawr dosbarth.

4. Ffocws ar yr elfen o lês yr unigolyn o fewn cymuned yr ysgol, gan osod ffocws bellach ar drefniadaethau a gweithdrefnau'r ysgol wrth gyflwyno newidiadau i weithredu gofynion Deddf ADY 2021

Yn rhan o waith yr ysgol yn ymateb i'r flaenoriaeth hon, roedd cyfle i gynnal archwiliad o ddarpariaeth bresennol yr ysgol, gyda cyfle hefyd i rannu gwybodaeth, mynychu hyfforddiant a chodi dealltwriaeth staff o newidiadau a fyddai'n cael effaith ar yr hyn sydd i ddigwydd ar lawr dosbarth. Bu CADY yn mynychu sesiynau hyfforddi amrywiol, a bu'r gwaith o fapio darpariaeth yr ysgol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn rhan o waith y flwyddyn. Bydd y gwaith yma yn parhau yn ystod 21-22.

Cafodd gallu'r ysgol i fedru ymateb yn llawn i bob elfen o'r blaenoriaethau ei amharu unwaith eto o ganlyniad i reolau yn ymwneud a Covid-19.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL AC ALLGYRSIOL

Oherwydd y sefyllfa yn ymwneud a Covid-19, ni fu yn bosib i'r plant gymryd rhan yn yr amrywiaeth arferol o weithgareddau all-gyrsiol.

CYDRADDOLDEB HILIO

Mae polisi Cydraddoldeb Hilio ar gael yn yr ysgol. Ni chafwyd unrhyw achosion o hiliaeth yn yr ysgol eleni.

DISGYBLION AG ANABLEDDAU

Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn eu cyfrifoldebau a'u dyletswydd mewn perthynas â disgyblion ag anableddau ac yn gweithredu i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu ar sail anabledd. Os yw rhiant yn teimlo fod eu plentyn angen darpariaeth arbennig, dylid trafod y mater â'r pennaeth i ddechrau. Mae Cynllun Hygyrchedd ar gael yn yr ysgol. Bydd yr ysgol bob amser yn ceisio sicrhau eu bod yn atal disgyblion ag anableddau rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill drwy:

- Wrando a gofalu, er mwyn creu awyrgylch gynhwysol a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl.
- Codi ymwybyddiaeth yr ysgol am rai o'r anawsterau a brofir gan blant anabl.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio dulliau rhesymol i ddarparu'r offer arbennig / arbenigedd sydd eu hangen ar blant anabl i wella ansawdd eu haddysg a'u lles.
- Cwblhau'r cynllun hygyrchedd bob blwyddyn ac adolygu meysydd i'w gwella neu eu newid.

CYFLEUSTERAU A DDARPERIR I HELPŪ MYNEDIAD

Mae'r ysgol ar un lefel.

Mae'r brif fynedfa yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

Mae'r coridorau'n ddigon llydan i ddarparu mynediad at y prif ddsbarthiadau.

Byddai'r ysgol bob amser yn fodlon trafod integreiddiad plant ag anableddau amrywiol.

Mae gan yr ysgol doiledau hygyrch.

BYW'N IACH

Mae'r ysgol yn rhan o gynllun Ysgolion Iach yr Awdurdod Lleol. Darperir ffrwythau a llaeth i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen. Anogir pob disgybl i fwyta ffrwyth, byrbryd iach ac yfed dwr fel rhan o gynllun ysgolion iach yr Awdurdod Lleol. Ni ganiateir siocled, fferins a diodydd pefriog fel byrbrydau yn y bore a'r prynhawn. Yn ystod y flwyddyn trefnwyd digwyddiad mini marathon nodedig ysgol gyfan llwyddiannus.

DARPARIAETH TOILEDAU

Mae gan yr ysgol doiledau ar gyfer bechgyn a merched yn y prif adeilad ac yn y dosbarthiadau caban y tu allan. Mae cyfleusterau golchi dwylo a pheiriannau sebon a sychwyr dwylo trydanol ym mhob un o'r toiledau. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol gan lanhawyr a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol.

AMSEROEDD Y SESIYNAU

O ganlyniad i'r sefyllfa yn ymwneud a Covid-19, penderfynwyd addasu ychydig ar yr amserlen ddyddiol er mwyn hwyluso ein trefniadau iechyd a diogelwch.

Meithrin y Bore	9.00 – 11.30 a.m.
Meithrin y Prynawn	12.20 – 3.00 p.m.
Derbyn / Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2	9.15 – 11.30 a.m. 12.25 – 2.45 p.m.
Blynyddoedd 3 / 4	8.55 – 12.15 p.m. 1.00 – 3.15 p.m.
Blynyddoedd 5 / 6	8.55 – 12.30 p.m. 1.15 – 3.00 p.m.

DYDDIADAU TYMOR YSGOL 2021 / 2022

Tymor yr Hydref

Agor	Dydd Mercher Medi 1af 2021
Cau	Dydd Gwener Hydref 22ain 2021
Agor	Dydd Llun Tachwedd 1af 2021
Cau	Dydd Mercher Rhagfyr 22ain 2021

Tymor y Gwanwyn

Agor	Dydd Iau Ionawr 6ed 2022
Cau	Dydd Gwener Chwefror 18fed 2022
Gŵyl Banc Ychwanegol	Dydd Llun Chwefror 28ain 2022
Agor	Dydd Mawrth Mawrth 1af 2022
Cau	Dydd Gwener Ebrill 8fed 2022

Tymor yr Haf

Agor	Dydd Llun Ebrill 25ain 2022
Gŵyl Banc Mai	Dydd Llun Mai 2ail 2022
Cau	Dydd Gwener Mai 27ain 2022
Agor	Dydd Llun Mehefin 6ed 2022
Cau	Dydd Mercher Gorffennaf 20fed 2022

Diwrnodau Hyfforddiant Staff, pan fydd yr ysgol ar gau

Dydd Mercher Medi 1af 2021
Dydd Gwener Hydref 22ain 2021
Dydd Llun Ebrill 25ain 2022
Dydd Llun Gorffennaf 18fed
Dydd Mawrth Gorffennaf 19eg
Dydd Mercher Gorffennaf 20fed 2022